SANTES DWYNWEN

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Dwyieithrwydd / Datblygu'r Gymraeg

- Ymgyfarwyddo â'r idiomau 'bobol bach', 'gorau glas' a 'gwerth chweil'
- Creu llyfryn/stori yn cynnwys idiomau
- Trafod ac edrych ar gardiau Santes Dwynwen. Plant i lunio cardiau eu hunain ac amrywio'r cyfarchiad
- Trafod arddodiaid mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ble mae'r diemwnt?' O dan/ar/o flaen/tu ôl a.y.y.b.
- Trafod i bwy y byddai'r plant yn rhoi bocs o siocled neu dusw o flodau, a pham
- Disgrifio rhai o'r cymeriadau
- Creu barddoniaeth syml am un o'r cymeriadau
- Gwrando ar stori Santes Dwynwen ac ymateb iddi
- Ysgrifennu a thrafod pwy sy'n caru/gofalu am y plant
- Gwaith ysgrifennu yn deillio o drafod seremonïau priodas
- Llunio gweddi i ddiolch am y bobl sy'n gofalu amdanom

Datblygiad Mathemategol

- Trafod misoedd y flwyddyn/dyddiau'r wythnos
- Trafod amser, clociau
- Safle, cyntaf, ail, trydydd a.y.y.b.
- Chwarae rhydd yn y twb dŵr. Arbrofi â chyfaint
- Trafod cymesuredd calon
- Pwyso cynhwysion

Gwyddoniaeth

- Gwneud bisgedi siâp calon – sylwi ar y cynhwysion yn newid wrth eu cymysgu/crasu
- Trafod pethau byw/anfyw; rhosyn/diemwnt
- Adnabod ac enwi gwahanol rannau'r rhosyn
- Trafod gwahanol ddefnyddiau, metelau, plastig, pren, defnydd a.y.y.b. a sylwi ar eu priodweddau
- Pam y defnyddir gwahanol ddefnyddiau i wahanol bwrpas, e.e. diemwnt i befrio, defnydd i'r ffrog – yn feddal, gellir ei lifo a'i wnïo i siâp arbennig a.y.y.b.
- Effaith ymarfer corff ar y galon. Sut i edrych ar ôl y corff

Dyniaethau

- Trafod seremoni priodas. Cymharu â seremonïau gwledydd eraill
- Stori Santes Dwynwen
- Lleoliad Llanddwyn ar fap o Gymru
- Trafod traddodiad llwyau caru

Datblygiad Corfforol

- Trafod effaith ymarfer corff ar y galon
- Chwarae amywiol gemau sy'n cynnwys rhedeg, ymlid ac osgoi eraill ac a fydd yn codi curiad calon

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

- Trafod pwy mae'r plant yn eu caru
- Trafod pwy sy'n caru'r plant
- Trafod pwy sy'n gofalu am y plant a thrafod eu teuluoedd
- Trafod pwysigrwydd bod yn garedig

- Trafod beth sy'n gwneud ffrind da
- Trafod gwahanol deimladau

Datblygiad Creadigol
- Gwneud lluniau/peintiadau/collages o'r cymeriadau gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau
- Gwneud modelau/pypedau o'r cymeriadau allan o amrywiol gyfryngau

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Straeon y saint mewn gwledydd eraill
- Cymharu cardiau Santes Dwynwen a chardiau San Ffolant

Technoleg Gwybodaeth
Anogir athrawon i hybu'r defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth wrth ymchwilio a chofnodi gwybodaeth